

YSGOL LLANHARI



Polisi Dysgu ac Addysgu

Mae anelu at ragoriaeth wrth ddysgu ac addysgu yn greiddiol i'n gweledigaeth fel ysgol 3-19 ac yn flaenoriaeth i'r holl ysgol

1. Nod y polisi

Nod y polisi hwn yw amlygu egwyddorion dysgu ac addysgu rhagorol o fewn yr ysgol. Mae'n berthnasol i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'n mynegi egwyddorion cyffredinol dysgu ac addysgu rhagorol ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus.

Yn annatod mae'n gorgyffwrdd â pholisiau eraill yr ysgol sy'n anelu at sicrhau addysgu rhagorol a hyrwyddo dysgu rhagorol. Amlygir yn y polisi hwn agweddau ar **addysgu** sydd dan reolaeth uniongyrchol athrawon a **dysgu** a gaiff ei hyrwyddo gan yr ysgol ond a gyflawnir gan ddisgyblion a myfyrwyr.

2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae datblygu dysgu ac addysgu rhagorol wedi bod yn rhan an-natod o raglen hyfforddiant staff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi adeiladu ar sylfaen gref y blynyddoedd blaenorol. Yn naturiol gan bod Ysgol Llanhari bellach yn ysgol 3-19 oed bu'n rhaid sefydlu egwyddorion dysgu ac addysgu rhagorol sy'n cwmpasu'r holl ystod oed ac yn golygu bod dilyniant o'r Cyfnod Sylfaen hyd at y chweched dosbarth.

Nodweddion Addysgu Rhagorol

Mae athro rhagorol yn ysbrydoli y disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol a weithiau tu hwnt i'r disgwyl mewn gwrs. Mae'n barod i gymryd risg wrth gynllunio ond yn hyblyg i anghenion ac ymateb yr holl ddisgyblion. Ystyriwn yr isod yn nodweddion addysgu rhagorol yn Llanhari :

- Disgwyliadau uchel o bawb
- Her - sy'n golygu bod pob disgybl yn cael eu hymestyn
- Cefnogaeth i bob disgybl i wireddu potensial
- Cyflymder y wers
- Perthynas rhyngpersonol dda â'r disgyblion
- Brwdfrydedd yr athro yn ysbrydoli disgyblion
- Cynllunio rhagorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn magu chwilfrydedd
- Gweithgareddau rhyngweithiol lle mae'r disgyblion yn weithredol
- Cwestiynu effeithiol sy'n unol â Thacsonomi Bloom

- Gwahaniaethu o ran adnoddau, cynhaliaeth neu dasg
- Rhannu nodau a meini prawf llwyddiant asesu gyda'r disgyblion
- Gwybodaeth bynciol gadarn
- Methodoleg amrywiol
- Athro sy'n hwylusydd wrth i'r disgyblion ddysgu

Yn ychwanegol, wrth arsylwi safon yr addysgu mewn gwrs, cyfeirir at y manylion canlynol o ganllaw arolygu Estyn.

2.2.1 Ystod ac ansawdd y dulliau addysgu

- Oes gan yr athrawon **wybodaeth bynciol dda a chyfoes a disgwyliadau uchel**?
- Ydi'r athrawon yn **cynllunio'n effeithiol** gan amlygu'r **nod ac amcanion** yn glir?
- A ddefnyddir **ystod o ddulliau ac adnoddau** sy'n ennyn diddordeb a herio y dysgwyr?
- A yw'r athro **yn fodel iaith da**?
- A yw'r athro yn creu **perthynas waith dda** sy'n meithrin dysgu o fewn y dosbarth ac yn **rheoli ymddygiad** yn gadarnhaol, diogel ac effeithiol?
- A wneir defnydd effeithiol o **staff cymorth**
- A yw'r athro yn **gwahaniaethu** – ar gyfer disgyblion AAA a MAT?

2.2.2 Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu

- Pa mor dda y mae'r **adborth llafar a marcio** yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda maent yn gwneud a beth sydd eisiau gwneud i wella?
- **Asesu ar gyfer dysgu** : h.y. a yw'r athro yn annog y disgyblion yn gyson i ystyried adborth ac a yw'r athro yn datblygu gallu y disgyblion i hunanasesu ac asesu gwaith cyfoedion
- A yw'r asesu yn llywio cynllunio'r dyfodol?

Nodweddion Dysgu Rhagorol (sylwadau llais y disgybl – Cyngor Ysgol Haf 2015)

Mae dysgwyr rhagorol yn arddangos y rhinweddau isod wrth ddysgu yn effeithiol ar draws y pynciau ac ymhob cyfnod o'u dysgu. Credir eu bod yn

- Bositif, hapus a hyderus
- cyd-weithio a helpu eraill yn effeithiol
- meddwl a myfyrio ar eu dysgu ac yn deall sut i wella
- gwrando yn dda ar ddisgyblion ac athrawon
- trafod eu gwaith a'u cynnydd gyda'r athrawon
- ymateb i gwestiynau
- chwilfrydig ac yn gofyn cwestiynau
- anelu'n uchel ac yn ymroi hyd eithaf eu gallu
- canolbwyntio'n dda
- awyddus ac yn dangos eu bod eisiau dysgu
- gofyn am gymorth er mwyn gwneud cynnydd
- datblygu ffordd unigryw o ddysgu / adolygu
- dysgu o'u camgymeriadau
- deall pwysigrwydd a pherthnasedd beth maent yn ei ddysgu

Derbyniwn mai cyfrifoldeb yr addysgwyr yw creu'r amodau cywir o fewn y dosbarth ar gyfer dysgu effeithiol. Nodir isod **nodweddion amgylchedd dysgu da** :

- amgylchiadau gwaith addas er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl gyfle i gyrraedd ei lawn addewid/botensial
- amgylchedd groesawgar lle gellir meithrin cwrteisi, caredigrwydd a pharch
- trefn a disgyblaeth
- amgylchedd lle gwerthfawrogir a dethlir llwyddiant a chyflawniadau disgyblion a myfyrwyr
- cyd barch rhwng dysgwyr ac athrawon; fel bod hyder yn cael ei fagu
- amgylchedd lle hyrwyddir agweddau positif tuag at waith
- cydnabyddiaeth o'r amrywiaeth o arddulliau dysgu sydd gan ddisgyblion a myfyrwyr a hynny yn cynnwys gwaith unigol, pâr a grŵp

- amgylchedd sy'n hyrwyddo gweithgareddau asesu ar gyfer dysgu; lle caiff disgyblion gyfleoedd i hunanasesu eu gwaith ac i fod yn rhan o'r broses gosod targedau
- cefnogaeth fentora ychwanegol i ddisgyblion sydd yn cael anawsterau gyda threfnu a chwblhau gwaith
- amgylchedd sy'n ymestyn a herio disgyblion MATH
- amrywiaeth o adnoddau o safon uchel
- arddangosfeydd ysgogol
- y sicrwydd yn y Cyfnod Sylfaen yn benodol bod darpariaeth barhaus a darpariaeth wedi ei gyfoethogi
- yn y Cyfnod Sylfaen – cyd-bwysedd rhwng gweithgareddau dan do ac awyr agored

Cynlluniau Gwaith / Dysgu Ysgol 3-19

Mae cynllunio effeithiol yn sail gadarn i addysgu rhagorol. Sicrheir bod cynlluniau gwaith yn ystyried holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol neu fanylebau byrddau arholi yn ôl yr angen. Rydym hefyd ers Medi 2016 yn arbrofi gyda chynllunio cwricwlaidd yn unol â Gweledigaeth Yr Athro Donaldson ar Ddyfodol Llwyddiannus. Mae'r trosolwg o waith a geir o fewn y cynlluniau gwaith ar draws yr ystod oedran ac yn draws bynciau yn gyffredinol yn

- nodi cynnwys a methodoleg sy'n cyd-fynd â'r arfer cenedlaethol orau
- canolbwyntio ar y sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n cael eu datblygu
- sicrhau lefelau a mathau priodol o wahaniaethu gan gynnwys i ddisgyblion MATH
- disgrifio'r adnoddau angenrheidiol sydd ar gael ar gyfer pob maes
- disgrifio dulliau addas ar gyfer cyflwyno testunau
- nodi dulliau asesu, cofnodi ac adrodd i ddisgyblion a rhieni
- cyfeirio at ddibenion Donaldson (lle bo hynny'n berthnasol)

ATODIAD

Cynlluniau Gwersi

O fewn ysgol 3-19 oed mae'n naturiol y bydd dulliau penodol o gynllunio sesiynau neu wersi'n amrywio o gyfnod i gyfnod ac o bwnc i bwnc ac nid yw'n ymarferol i nodi rheolau manwl fydd yn cyfiawnhau pob posibiliad. Serch hynny, disgwylir bod sesiynau a gwersi'n cael eu cynllunio yn ôl gofynion y daflen gynllunio gwers sy'n berthnasol i oed y disgyblion (gweler y daflen gynllunio gwers uwchradd (addasiad Haf 2015) a'r daflen gynllunio cynradd). **ATODIAD** Yn gyson i'r ddau sector, mae'r ffocws ar weithgareddau'r disgybl a gweithgareddau'r athro. Defnyddir yr un daflen wrth arsylwi gwersi a sesiynau ar draws yr ysgol a'r un meini prawf wrth nodi cynnydd disgyblion wrth ddysgu a safon yr addysgu. **ATODIAD** Disgwylir i'r athrawon gynnig amryw o gyfleoedd i hybu dysgu ac addysgu y disgyblion/myfyrwyr ac i gynorthwyo gyda datblygiad eu sgiliau. Ystyrir bod un wers neu sesiwn yn rhan o ddilyniant a bod hyn yn glir i'r athro a'r disgyblion.

- dylai fod cyflwyniad i wersi / sesiynau lle rhennir nodau ac amcanion y wers / sesiwn yn fyr gyda'r dysgwyr a bod unrhyw adolygiad angenrheidiol o gynnwys y wers ddiwethaf yn cael ei gyflawni
- dylid sicrhau bod yna gyfleoedd amrywiol ar gyfer dysgu yn unol â'r hyn a nodwyd yn flaenorol wrth drafod addysgu rhagorol e.e. gwaith rhyngweithiol, gwaith gyda TGCh, gwaith grŵp, astudiaeth unigol a chyflwyniadau
- dylid adnabod a pharatoi unrhyw waith sydd yn berthnasol i oedran, gallu, arddulliau dysgu a mathau o bersonoliaeth disgyblion
- gall trefniadau asesu ar gyfer dysgu, ffurfiol ac anffurfiol arwain at adborth effeithiol i ddisgyblion a llywio cynllunio athrawon i sicrhau gwersi sy'n cyd-fynd â'r cylch asesu sydd i'w weld ym mholisi asesu'r ysgol
- mae anegn sicrhau bod yna ddiweddglo, crynodeb a chyfle i fyfyrwyr ar y strategaethau dysgu a ddefnyddiwyd yn y wers.

Rhennir yr un egwyddorion yn y Cyfnod Sylfaen eto gwelir bod natur y dysgu ac addysgu yno yn golygu bod gwaith penodol yn cael ei gwblhau wrth ddysgu y tu allan ac wrth ddysgu trwy chwarae. Mae ffactorau eraill megis y defnydd effeithiol o gynorthwywyr e.e. wrth lywio gweithgareddau grwp ffocws, i'w hystyried hefyd.

Datblygu Sgiliau y Disgyblion

Dylid ystyried egwyddorion polisi Dysgu ac Addysgu Ysgol Llanhari ar y cyd â pholisiau'r ysgol ar lythrennedd, rhifedd a dysgu digidol am eu bod yn greiddiol i egwyddorion cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus. Ceir manylion penodol yn y polisiau hyn ar sut mae hybu sgiliau y disgyblion. Yn yr un modd, mae datblygu sgiliau meddwl y disgyblion yn greiddiol i athroniaeth Ysgol Llanhari ers cyflwyno y cwricwlwm sgiliau, gyda'r rhaglen Dysgu i Lwyddo. Ceir anogaeth gan staff i ddatblygu meddwl trwy gyfrwng

gweithgareddau yn y dosbarth lle mae'r disgyblion yn cynllunio, datblygu a myfyrio. Mae'r disgyblion yn dysgu sgiliau yn y Cyfnod Sylfaen ac maent yn cael eu gwreiddio a'u cymhwysu yn drawsgwricwlaidd trwy gydol yr holl gyfnodau dysgu. I'r perwyl hyn, ceir cofnod o'r sgiliau meddwl a thafleuni cymorth pwrpasol yn llyfrau cyswllt disgyblion yn yr adran uwchradd. **ATODIAD**

Hyfforddiant Staff

Mae dysgu ac addysgu rhagorol yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac felly ymrwymir i hyfforddi staff yn gyson er mwyn cynnal a chodi safon y dysgu ac addysu. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ac mae rhaglen o arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol yn rhoi ffocws penodol i hyn. Cynhaliwyd sesiynau ar agweddau penodol o ragoriaeth ers ail-sefydlu'r rhaglen Anelu at Ragoriaeth wrth Ddysgu ac Addysgu ym Mai 2015 ac mae'n rhan bwysig o Gynllun Gwella'r Ysgol e.e.

- cwestiynu
- starters
- gwahaniaethu
- herio disgyblion MATH
- datblygu llythrennedd a rhifedd
- datblygu sgiliau dysgu digidol
- sgiliau meddwl

Mae'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i'r holl ystod 3-19 ac fe geir enghreifftiau o'r hyfforddiant fel atodiadau. **ATODIAD** Rydym yn monitro "impact" yr hyfforddiant hwn trwy gyfrwng yr arsylwadau a'r broses monitro llyfrau. Gwelir hefyd bod staff wedi elwa o fynychu cyrsiau allanol megis Olevi a chysiau EAS ac wedi rhaedru arfer dda mewn cyfarfodydd staff yn ogystal ag arsylwi ei gilydd yn dysgu. Mae'r staff yma hefyd wedi arwain ar agweddau dysgu ac addysgu fel rhan o'u cyfrifoldebau dos-ranedig ers y flwyddyn 2014-15.

Ystyriwn bod arsylwi gwersi yn fanteisiol wrth gynnal a chodi safonau dysgu ac addysgu am y rhesymau canlynol :

- Mae'n darparu cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol wrth rannu arfer dda
- Mae'n creu diwylliant o gyd-arsylwi er mwyn gwella y dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol.
- Mae addysgu effeithiol yn golygu bod y disgyblion yn gwneud cynnydd wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau uchel
- Mae arsylwi yn arwain at drafodaeth broffesiynol ymhlith staff

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn o arsylwi dysgu ac addysgu fesul triawdau traws bynciol a thraws sector ers Haf 2015. Ystyriwn hwn yn arf bwysig i godi safonau. Gwelir y triawdau fel cyfle i atgyfnerthu sgiliau addysgu y staff a ffocysu ar y dysgwyr ymhob achos. Aelodau o staff a ystryriwyd yn addysgwyr cryf a fu'n arwain 'rhain fel rhan o'u cyfrifoldebau dos-ranedig. Mae ffocws y triawdau yn clymu i gynllun gwella'r ysgol a sicrhau bod amser digonol yn cael ei roi ar ôl y cyfnod arsylwi i gynnal deialog broffesiynol i symud y dysgu ac addysgu yn ei flaen. Gweler enghreifftiau o daflenni arsylwi a chanfyddiadau staff yn yr atodiadau **ATODIAD**

Asesu y Dysgu ac Addysgu

Mae egwyddorion asesu rhagorol ar draws yr ystod 3-19 yn greiddiol i'n hathroniaeth o Anelu at Ragoriaeth ac fe gynhaliwyd hyfforddiant penodol ar asesu sy'n adeiladu ar y gwaith allweddol a wnaed yn flaenorol ar asesu ar gyfer dysgu. **ATODIAD** Ceir manylion llawn ym mholisi asesu yr ysgol ar hyn ar sut mae asesu ar gyfer dysgu yn rhan an-natod o welediaeth yr ysgol ar ddysgu ac addysgu rhagorol. Ystyriwn mai un agwedd bwysig o hyfforddiant staff sydd ynghlwm â hyn yw'r cyfle a roddir i athrawon i gyd-fonitro llyfrau yn draws bynciol yn yr uwchradd ac ar draws y dosbarthiadau yn yr adran gynradd, yn unol â chalendr monitro yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r broses fonitro yn digwydd trwy reolwyr cyswllt yn unig.

Monitro'r Dysgu ac Addysgu ar draws yr ysgol 3-19 oed

Mae'r Tîm Arwain yn :

- Arwain y rhaglen Anelu at Ragoriaeth a monitro effeithiolrwydd y rhaglen hon trwy ganlyniadau disgyblion, arsylwi, a chraffu ar waith /llyfrau.
- Sicrhau bod yr holl staff wedi eu hyfforddi'n berthnasol yn unol â'u cyfrifoldebau
- Hyrwyddo dulliau ysgol gyfan sydd yn annog brwdfrydedd dysgu a gwelliant parhaus ymysg disgyblion.
- Monitro agweddau at ddysgu ar draws yr ysgol ar lefel pwnc, grŵp blwyddyn a dulliau eraill o grwpio disgyblion.
- Monitro cyrhaeddiad ar draws yr ysgol, fesul pwnc a grwpiau o ddisgyblion.
- Gwerthuso canfyddiadau a datblygu dulliau parhaus i wella agweddau a chyrhaeddiad.
- Gweithredu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu rheolaidd o'r polisi a'r strategaethau.
- Monitro effeithiolrwydd addysgu ac ymyrryd pan fo safon yr addysgu yn is na'r safon ddisgwylidig.

Rôl Arweinwyr y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn yr adran Gynradd

Mae'r Arweinwyr yn ymwneud yn bennaf ag arwain ar y trosolwg o waith ac yn cynllunio gweithgareddau. Maent hefyd yn monitro safonau trwy graffu ar enghreifftiau o waith y disgyblion.

Rôl yr Arweinydd Pwnc yn yr adran uwchradd

- Dangos arweiniad i staff yn y pwnc ym mhob agwedd o'r gwaith.
- Creu ethos o fewn yr adran lle mae sylw cyson yn cael ei roi i drafod materion dysgu ac addysgu.
- Monitro a gwerthuso agweddau a chyraeddiad grwpiau o ddisgyblion o fewn y pwnc a gweithredu ar y canfyddiadau.
- Monitro ansawdd y dysgu a'r addysgu mewn gwersi gan sicrhau bod sylw yn cael ei roi ar y dysgu a'r addysgu a'r datblygiad o sgiliau o fewn y wers.
- Ymyrryd pan fo safon yr addysgu'n disgyn yn is na'r disgwyl.
- Sicrhau bod y staff sy'n dysgu'r pwnc wedi eu hyfforddi'n berthnasol yn y strategaethau dysgu ac addysgu perthnasol, a'u bod yn gymwys i addysgu'r pwnc/pynciau.
- Cefnogi staff sy'n addysgu'r pwnc i greu amodau ar gyfer dysgu da.
- Arwain yr adran i greu cynlluniau gwaith/gwersi sy'n adlewyrchu gofynion yr ysgol o ran Anelu at Ragoriaerth
- Trefnu adnoddau dysgu, yr amserlen ar gyfer y pwnc a dosraniad staff
- Defnyddio gweithdrefnau Rheoli Perfformiad a hunanwerthuso'r ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad athrawon o fewn y pwnc
- Monitro gwaith disgyblion wrth ddilyn rhaglen monitro'r ysgol, gan lenwi'r taflenni priodol a'u trafod gyda'r ACTA

Polisi gwreiddiol Chwefror 2010 gan Rachel Samuel, Colin Pari (Penaethiaid Cynorthwyol)
Addaswyd Chwefror 2017 gan Meinir Thomas (Dirprwy Bennaeth)